

# Ysgol Gyfun Gwynllyw

Prifathro : H. Ellis Griffiths, B.Sc.

Heol Folly, Trefddyn, Pontypŵl, Torfaen, NP4 8JD

Tel : (01495) 750405

Ffacs : (01495) 757414

e-bost : [heg@gwynllyw.schoolsedu.org.uk](mailto:heg@gwynllyw.schoolsedu.org.uk)

[www.gwynllyw.org](http://www.gwynllyw.org)

Cerddwn Ymlaen

## Gwybodaeth Pwysig

Annwyl Riant, Warcheidwad,

### Datblygiad yr Adeilad

Blwyddyn newydd dda i bob un ohonoch. Rydym yn falch o nodi bod y mwyafrif o'r gwaith adeiladu ar ben ac yn dilyn dwy flynedd anodd iawn o ddiffyg cyfleusterau, yr ydym fel ysgol yn symud ymlaen i bennod newydd, yn falch iawn o'r adnoddau dysgu ac addysgu newydd sydd yn creu cyfleoedd newydd i'r disgyblion a'r staff. Ein bwriad fel ysgol yw enwi yr adeilad newydd yn "Adeilad Llanofar", er mwyn talu teyrnged i deulu Llanofar a wnaeth gyfrannu gymaint yn yr ardal leol. Yr ydym wedi ymgynghori gyda'r staff a'r disgyblion a'r corff Llywodraethol sy'n hapus gyda'r enw a byddwn yn ymgynghori gyda'r Awdurdodau Lleol sydd wedi cyfrannu'n ariannol tuag at y cynllun hwn.

Mae'r cyfleusterau newydd yn sicrhau digon o le ar gyfer yr holl ddisgyblion sydd yn yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn Nhorfaen, Casnewydd, Mynwy a Blaenau Gwent hyd at Awst 2017. Mae'r Awdurdodau Lleol yn rhanbarth Gwent yn cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru er mwyn sefydlu ail ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg i'r rhanbarth hon erbyn Medi 2016. Yn amlwg, pan fydd penderfyniadau, bydd proses o ymgynghori'n digwydd drwy'r rhanbarth hon.

### Gwybodaeth ar Berfformiad Academaidd y Disgyblion – [www.gwynllyw.org](http://www.gwynllyw.org)

Mae'r ffocws ar godi safonau cyrhaeddiad ein disgyblion yn flaenoriaeth i'r ysgol, i'r Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru. Mae'n bwysig eich bod fel rhieni yn cael cyfle blynyddol i astudio'r holl ganlyniadau'n ofalus yng Nghyfnod Allweddol 3, 4 a 5. Felly, o hyn ymlaen, yn flynyddol, byddwn yn cynnwys safle ar wefan yr ysgol a fydd yn cynnwys canlyniadau asesiadau Cyfnod Allweddol 3, 4 a 5. Bydd y wybodaeth yn cynnwys y canlyniadau dros dreigl o dair blynedd, gan ddangos gwahaniaeth rhwng canlyniadau'r bechgyn a'r merched. Bydd y data yn cynnwys cymhariaeth gyda'r Awdurdod Addysg, cymhariaeth gyda chanlyniadau Cymru a chymhariaeth gyda'r teulu. Mae'r drefn newydd o gymharu canlyniadau'r ysgol yn grwpio ysgolion sy'n debyg o ran y math o ysgol, proffil poblogaeth yr ysgol a'r canran o ddisgyblion yn yr ysgol sy'n derbyn cinio rhad. Bwriad y grwpiau hyn yw cymharu ysgolion tebyg, er mwyn gweld pwy sy'n gwneud yn dda ac yn creu cyfle i'r ysgolion yn y teulu i weithio gyda'i gilydd i godi safonau. Bydd data'r ysgol ym mhob cyfnod allweddol yn cynnwys mesur o 'safle yn y teulu'. Byddwn yn cyhoeddi'r canlyniadau ym mis Ionawr o'r flwyddyn berthnasol er mwyn sicrhau bod y data cymharol ar gael ym mhob cyfnod allweddol.

### Bandio

Mae'r Llywodraethwyr yn ystod y pum mis diwethaf wedi cyfarfod ar sawl achlysur, fel sy'n digwydd yn flynyddol, i drafod ac i dderbyn adroddiadau manwl oddi wrth staff hŷn yr ysgol, oddi wrth y Penaethiaid Adrannau ac oddi



# Ysgol Gyfun Gwynllyw

Prifathro : H. Ellis Griffiths, B.Sc.

Heol Folly, Trefddyn, Pontypŵl, Torfaen, NP4 8JD

Tel : (01495) 750405

Ffacs : (01495) 757414

e-bost : [heg@gwynllyw.schoolsedu.org.uk](mailto:heg@gwynllyw.schoolsedu.org.uk)

[www.gwynllyw.org](http://www.gwynllyw.org)

Cerddwn Ymlaen

wrth yr athrawon. Mae'r broses hon yn fanwl, yn cymryd amser ond yn broses sy'n golygu bod Llywodraethwyr yn dod i ddeall yn dda y gwelliannau a'r meysydd sydd angen sylw yn flynyddol. Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch yn fawr iddynt am eu hymroddiad i ddatblygiad a llwyddiant yr ysgol.

Wrth astudio canlyniadau'r ysgol ar wefan yr ysgol, byddwch yn nodi nifer o lwyddiannau a rhai meysydd sydd angen gwella. Yng Nghyfnod Allweddol 3, mae'r treigl tair blynedd yn dangos bod y rhan fwyaf o'r pynciau yn dangos gwelliant sy'n galonogol iawn. Yng Nghyfnod Allweddol 4, da yw nodi y gwelliannau yng nghanlyniadau Adran y Gymraeg a Gwyddoniaeth sy'n galonogol iawn. Beth bynnag, mae canlyniadau Mathemateg wedi gostwng dros y treigl tair blynedd sydd wedi golygu bod y mesur 'Trothwy 2' yn cynnwys Mathemateg a Chymraeg neu Saesneg hefyd wedi gostwng dros y treigl tair blynedd 2010-2012. Mae trefniadau bandio Cymru yn seiliedig ar dueddiadau dros dreigl o dair blynedd, sy'n golygu os oes un o'r pynciau craidd (Cymraeg, Saesneg neu Mathemateg) yn gostwng dros y tair blynedd, bydd canlyniadau'r ysgol o ran bandio hefyd yn gostwng dros y tair blynedd. Mae prif ffocws y categorïddio bandio yn seiliedig ar ganlyniadau'r pynciau craidd yng Nghyfnod Allweddol 4, llwyddiant y pynciau eraill yng Nghyfnod Allweddol 4 a materion eraill fel presenoldeb yn gwella neu'n gwaethygu. Canlyniad y broses hon i'r ysgol yw bod y categorïddio bandio wedi newid o Fand 1 yn 2010, i Fand 3 yn 2011 i Fand 4 yn 2012.

Yr ydym i gyd, yn Brifathro, Athrawon a Llywodraethwyr yn siomedig bod yr ysgol yn cael ei chategreiddio ym Mand 4 sydd ddim yn ein barn ni yn adlewyrchu cryfderau academiaidd yr ysgol hon. Serch hynny, yr ydym yn derbyn y categorïddio sy'n deillio o Lywodraeth Cymru ac yn benderfynol o wella'r sefyllfa yn 2013. Hoffwn hefyd danlinellu llwyddiannau'r Adran Fathemateg yn yr ysgol hon dros y blynyddoedd diwethaf. Wrth astudio'r data yng Nghyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 5, byddwch yn gweld canlyniadau canmoladwy, ym mhell uwchben cyfartaledd yr Awdurdod Addysg, a Chymru. Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae Adran Fathemateg yr ysgol hon yn parhau uwchben cyfartaledd yr Awdurdod Addysg, Cymru a'r teulu, ond oherwydd bod tueddiad y canlyniadau wedi gostwng, mae'r data bandio hefyd wedi gostwng.

## Cyhoeddi'r Canlyniadau

Ein bwriad felly yw cyflwyno holl ganlyniadau'r ysgol yn flynyddol ar wefan yr ysgol er mwyn eich bod fel rhieni'r ysgol yn cael cyfle i weld y darlun cyflawn. Mae'r Llywodraethwyr hefyd yn awyddus i estyn cyfle i chi fel rhieni i ddod i gyfarfod â'r Prifathro a'r Llywodraethwyr gan estyn cyfle i chi ddod i drafod unrhyw fater sydd o gonsyrn am ddatblygiad yr ysgol gyfan. Gofynnir yn garedig i chi ddod i drafod materion ysgol gyfan yn y cyfarfod hwn, y sefyllfa bresennol a'r datblygiadau i'r dyfodol. Os oes materion yn ymwneud â chonsyrn am ddisgybl unigol, mi fuaswn yn ddiolchgar pe baech yn gallu cysylltu gyda'r Pennaeth Blwyddyn perthnasol neu gyda Miss Helen Rogers



# Ysgol Gyfun Gwynllyw

Prifathro : H. Ellis Griffiths, B.Sc.

Heol Folly, Trefddyn, Pontypŵl, Torfaen, NP4 8JD

Tel : (01495) 750405

Ffacs : (01495) 757414

e-bost : [heg@gwynllyw.schoolsdu.org.uk](mailto:heg@gwynllyw.schoolsdu.org.uk)

[www.gwynllyw.org](http://www.gwynllyw.org)

sy'n gyfrifol yn yr Uwch Dîm Rheoli am ddatblygiad y disgyblion o Flwyddyn 7 i Flwyddyn 13.

## Cyfarfod Rhieni

Yr ydym yn bwriadu cynnal y cyfarfod, **Dydd Iau, Mawrth 21ain 2013** am 5.00yp yn y Ffreutur newydd. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael yn y ffreutur o 4.00yp ymlaen a bydd cyfle i gael taith o gwmpas yr adeiladau newydd yng nghwmni rhai o'r disgyblion. Bydd aelodau o'r corff Llywodraethol yno am 5.00yp i gynnal y cyfarfod. Prif ffocws y cyfarfod fydd canlyniadau'r ysgol yn 2012 a'r categorïddio bandio sy'n deillio o hynny. Rhai dyddiadau pwysig i'w nodi y tymor hwn:

1. Dyddiadau'r hanner tymor, Chwefror 11eg i Chwefror 15fed.
2. Dydd Hyfforddiant mewn swydd ar gyfer y staff, Dydd Llun, Chwefror 18fed.
3. Noson Rhieni Blwyddyn 8, Dydd Iau, Chwefror 21ain.
4. Noson Rhieni Blwyddyn 10, Dydd Mercher, Mawrth 13eg.

Yr eiddoch yn gywir,

H Ellis Griffiths  
Prifathro

Mr. Brian Hancock  
Cadeirydd y Llywodraethwyr.

